Coleg Brenhinol y Bydwragedd

Cymru

## Cymru

# adroddiad ar gyflwr gwasanaethau mamolaeth yng 2023

# Cyflwyniad

Er y cynnydd sylweddol yn nifer y bydwragedd dan hyfforddiant yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sydd wedi arwain at lawer mwy o fydwragedd cymwys yn y GIG, mae gofal mamolaeth yng Nghymru yn parhau i fod angen cryn dipyn o sylw a buddsoddiad. Mae heriau sylweddol y mae angen mynd i'r afael â hwy'n uniongyrchol, a hynny ar frys.

Mae cyfansoddiad demograffig y menywod sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru yn newid yn gyflym. Er enghraifft, mae'r mwyafrif o fenywod sy'n rhoi genedigaeth yng Nghymru bellach dros 30. Mae hyn yn newid sylweddol dros y degawd diwethaf, lle mae cyfran y genedigaethau i fenywod 30 oed neu hŷn wedi neidio o 42% (2011) i 53% (2021).

Yn 2021, roedd ychydig llai na chwech o bob 10 o fenywod beichiog yng Nghymru dros eu pwysau neu'n ordew. Mae mynegai màs y corff uwch (BMI) yn ystod beichiogrwydd yn ffactor risg sylweddol ar gyfer menywod a'u babanod, a gall arwain at gyflyrau fel diabetes yn ystod beichiogrwydd. Mae'r fath gyflyrau yn gofyn am well ffocws a gofal ar gyfer staff mamolaeth, sydd, yn eu tro'n rhoi pwysau ychwanegol ar y gwaith o gynllunio'r gweithlu.

Mae pob menyw yn disgwyl ac yn haeddu'r gorau o wasanaethau mamolaeth, ond mae'r ddemograffeg newidiol yn golygu bod darpariaeth y gofal hwnnw wedi dod yn fwy cymhleth, sy'n effeithio ar y nifer o staff sydd ei angen.

Mae angen i ni weithredu er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn. Mae Llywodraeth Cymru angen cyhoeddi, ariannu a gweithredu'r Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol ar gyfer Cymru. Byddai hyn yn darparu'r cynllun a'r trosolwg strategol sydd ei angen i wneud pethau'n iawn ledled y wlad.


Yn benodol, o fewn y rhaglen honno, rydym angen rhoi ffocws o'r newydd ar y gweithlu a staffio. Mae hyn yn fwy na chwarae â niferoedd yn unig. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod gennym y staff iawn sydd â'r gymysgedd briodol o sgiliau, ac sydd wedi'u hyfforddi a'u cyfarparu'n dda.

Yn olaf, mae'n rhaid i ni gymryd gofal o'n staff presennol. Ffordd dda o fynd i'r afael â heriau gweithlu yw dal gafael ar staff. Gwyddom fod yna lefelau uchel o orflinder a gorweithio, yn rhannol oherwydd y pwysau i gynnal y gwasanaethau mamolaeth drwy gydol y pandemig. Eto, nid ynghylch niferoedd yn unig mae hyn. Mae dal gafael ar staff profiadol yn cefnogi'r rheiny sy'n ymuno â'r gweithlu ac yn sicrhau bod y staff newydd sy'n cael eu hyfforddi gennym yn ychwanegu'n weithredol at y gweithlu yn hytrach na chymryd lle'r rhai sy'n gadael yn unig.

**Yn 2021, roedd ychydig llai na chwech o bob 10 o fenywod beichiog yng Nghymru dros eu pwysau neu'n ordew. Mae mynegai màs y corff uwch (BMI) yn ystod beichiogrwydd yn ffactor risg sylweddol ar gyfer menywod a'u babanod**


## Genedigaethau byw

**(ffynhonnell: Llywodraeth Cymru)**




## Genedigaethau byw yn ôl bwrdd iechyd, 2021

**(ffynhonnell: Llywodraeth Cymru)**






# Genedigaethau yng Nghymru

Cafodd mwy o fabanod eu geni yng Nghymru yn 2021 (y flwyddyn ddiweddaraf y mae gennym ffigyrau ar ei chyfer) nag yn 2020. Fe wnaeth y cynnydd hwn mewn genedigaethau wrthdroi tueddiad a oedd yn ymestyn yn ôl i'r 2010au.

Roedd cyflymder cwymp y degawd blaenorol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Weithiau, gwelwyd gostyngiad o dan 1% (yn 2012, 2014 a 2015) ond ar adegau eraill roedd y cwymp yn digwydd yn gyflymach, er enghraifft dros 5% yn 2019.

Mae'r gwrthdro a ddigwyddodd yn 2021 o'r hyn a ymddengys fel tueddiad amlwg, o gymorth i'n hatgoffa bod nifer y genedigaethau'n amrywio bob blwyddyn a hynny'n ddi-rybudd ac yn gyflymach nag y mae modd hyfforddi bydwragedd a staff arall yn y maes mamolaeth. Mae'n bwysig felly nad yw adnoddau a staff yn cael eu neilltuo i wasanaethau ar sail sy'n tybio y bydd nifer y genedigaethau'n ddigyfnewid neu y bydd cwymp parhaus yn eu nifer.


Ledled Cymru, mae Byrddau Iechyd yn gweithredu gwasanaethau mamolaeth sy'n amrywio o ran maint, gydag ychydig dros 1,000 o enedigaethau bob blwyddyn o fewn ardal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ac oddeutu 6,000 yn ardaloedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Aneurin Bevan.

**Mae'r gwrthdro a ddigwyddodd yn 2021 o'r hyn a ymddengys fel tueddiad amlwg, o gymorth i'n hatgoffa bod nifer y genedigaethau'n amrywio bob blwyddyn a hynny'n ddi-rybudd ac yn gyflymach nag y mae modd hyfforddi bydwragedd a staff arall yn y maes mamolaeth**




## Genedigaethau Cartref, 2011-2021

**(ffynhonnell: StatsCymru)**




## Genedigaethau cartref yn ôl bwrdd iechyd, 2021, 2011-2021

**(ffynhonnell: StatsCymru)**






Dros y degawd diwethaf, mae nifer y genedigaethau cartref bob blwyddyn fel rheol wedi bod yn y cannoedd uchel. Y flwyddyn olaf i ni weld dros 1,000 o enedigaethau cartref oedd yn 2014, ond ar ôl y nifer isel o 712 o enedigaethau cartref yn 2018, gwelsom y nifer yn codi eto, gan gyrraedd 935 yn 2021.

Mae cyfran yr holl enedigaethau sy'n enedigaethau cartref hefyd ar gynnydd. Ers y pwynt isel diweddar o 2.3% yn 2018, cyrhaeddodd 3.3% yn 2020 a 3.2% yn 2021.

Mae cyfraddau yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru, ac mae rhai wedi'u heffeithio gan y gwasanaethau genedigaethau cartref yn cael eu hatal ar adegau. Yn 2021, roedd gan bump o'r saith Bwrdd Iechyd gyfraddau rhwng 2.1% (ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) a 3.1% (ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe). Cafodd cyfradd ychydig yn uwch o enedigaethau cartref (5.8%) ei nodi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, fodd bynnag, sy'n dod i'r amlwg, gyda 11.6% o enedigaethau yn 2021 yn digwydd yn y cartref.

Er mai dyma'r Bwrdd sydd â'r gwasanaeth mamolaeth lleiaf yng Nghymru yn ôl nifer y genedigaethau (1,054 yn 2021), dim ond saith yn llai o enedigaethau cartref na Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, lle gwelwyd cyfanswm o 6,211 o enedigaethau, gafodd eu hwyluso gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Yn arferol, mae pob ardal yn hwyluso oddeutu dau neu dri o enedigaethau cartref bob wythnos.


Mae genedigaethau cartref yn arwydd o wasanaeth mamolaeth sy'n cefnogi ac yn galluogi menywod i gael dewis dros eu gofal. Ni fydd pob menyw eisiau genedigaeth gartref, ni fydd pob menyw yn addas ar gyfer genedigaeth gartref, ac mae llawer o ffyrdd eraill o fynegi dewis o ran gofal. Fodd bynnag, mae'n ddangosydd defnyddiol o ba mor dda y mae'r dewis penodol hwn i fenywod yn cael ei gyflawni.



# Bydwragedd yng Nghymru


## Proffil oedran mamau

**(ffynhonnell: Llywodraeth Cymru)**




## Proffil oedran mamau yn ôl bwrdd iechyd, 2021

**(ffynhonnell: StatsCymru)**






Yng Nghymru, yn 2021, roedd menyw a oedd yn rhoi genedigaeth yn fwyaf tebygol o fod yn 30 oed neu'n hŷn. Roedd ychydig dros 15,000 o fabanod wedi'u geni i fenywod yn y grŵp oedran hwn, gydag ychydig dros 13,500 o enedigaethau i fenywod a merched iau.


Roedd hyn yn gwrthdroi'r sefyllfa yn 2011, pan oedd bron i 21,000 o enedigaethau i fenywod a merched o dan 30 oed gyda bron i 15,000 i fenywod hŷn.

Yn wir, er bod nifer y genedigaethau i fenywod a merched yng Nghymru o dan 30 oed wedi gostwng yn y 10 mlynedd i 2021, o 20,849 i 13,664, cododd nifer y genedigaethau i ferched yn eu 30au, o 14,829 i 15,158.

Yn 2011, roedd oddeutu 6,000 yn fwy o fabanod wedi eu geni i fenywod dan 30 oed nag i fenywod 30 oed neu hŷn. Erbyn 2021, roedd oddeutu 1,500 yn fwy o enedigaethau i fenywod yn y categorïau oedran hŷn. Neidiodd cyfran y babanod a anwyd i fenywod 30 oed neu hŷn o 42% i 53%.

Mae hyn yn bwysig oherwydd, ar gyfartaledd, bydd genedigaethau i fenywod yn y grwpiau oedran hŷn fel rheol yn golygu bod angen mwy o gefnogaeth arnynt gan staff gofal iechyd. Bydd cynnydd yn nifer y genedigaethau i'r menywod hyn yn creu goblygiadau ar gyfer anghenion gweithlu yn y maes mamolaeth, gan gynnwys bydwragedd.


Yn 2021, ym mhob ardal ond un (Bwrdd Iechyd Addysgu Powys), merched yn eu tridegau cynnar oedd y grŵp mwyaf oedd yn defnyddio gwasanaethau mamolaeth, a fesurwyd yn ôl nifer y genedigaethau. Roedd hyn ar ei amlycaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.



**Neidiodd cyfran y babanod a anwyd i fenywod 30 oed neu hŷn o 42% i 53%**


## Merched yn adrodd cyflwr iechyd meddwl yn yr asesiad cychwynnol

(ffynhonnell: Llywodraeth Cymru)




## BMI menywod ar gam cychwynnol yr asesiad, newid o 2017 i 2021


(ffynhonnell: Llywodraeth Cymru)






## Statws ysmygu yn yr asesiad cychwynnol

(ffynhonnell: Llywodraeth Cymru)




Nid yw'r pwysau ar y gweithlu i'w priodoli i nifer y genedigaethau yn unig. Mae hefyd yn hanfodol ein bod yn edrych ar gymhlethdod y llwyth gwaith y mae gwasanaethau mamolaeth yn ei wynebu.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cyfran y menywod sy'n nodi cyflwr iechyd meddwl yn eu hasesiad cychwynnol wedi codi o 23.2% yn 2017 i 29.4% yn 2021. Mae cyfraddau mynegai màs y corff (BMI) hefyd wedi gweld cynnydd mewn menywod a gofnodwyd yn eu hasesiad cychwynnol fel rhai sydd dros eu pwysau (i fyny o 28.3% i 29.6% rhwng 2017 a 2021) ac yn ordew (i fyny o 27.3% i 29.7% dros yr un cyfnod).


Mae newyddion cadarnhaol ynghylch ysmygu, gyda'r gyfran o fenywod sydd wedi eu cofnodi fel ysmygwyr ar adeg eu hasesiad cychwynnol wedi gostwng o 18.1% yn 2017 i 14.8% yn 2021.

Mae bydwragedd mewn sefyllfa dda i helpu menywod i wella eu hiechyd yn ystod beichiogrwydd, ond gyda chyfran gynyddol o fenywod yn dweud bod ganddynt gyflyrau iechyd meddwl yn ogystal â chyfran gynyddol o fenywod dros bwysau ac yn ordew, mae heriau a phwysau ychwanegol yn cael eu rhoi ar fydwragedd a darparwyr gofal eraill.

Mae hyn yn cynnwys galw cynyddol am rolau bydwreigiaeth arbenigol sy'n canolbwyntio ar wella gofal i fenywod sydd â diabetes neu sy'n ysmygu, er enghraifft. Mae'r rhain yn rolau pwysig, ond mae'n anochel bod eu darparu yn ychwanegu at yr angen am fwy o fydwragedd ar draws y gwasanaeth.

## Cyfraddau bwydo o’r fron yn ôl oedran mamau, 2021

(ffynhonnell: StatsCymru)





Mae gan fydwragedd a gweithwyr cymorth mamolaeth (MSWs) rôl glir o ran helpu menywod i gael eu babanod i fwydo’n iawn, yn fwyaf amlwg yn syth ar ôl eu geni, gan gynnwys cefnogi bwydo o’r fron. Ar y cyfan, mae tua thair o bob pum menyw yn bwydo o’r fron yn syth ar ôl genedigaeth.

Mae'r gyfradd hon fwy neu lai yn haneru ar ôl chwe mis i fenywod sy'n 30 oed neu'n hŷn, ond i grwpiau oedran iau, mae'r gostyngiad yn fwy llym ac (ar wahân i'r rhai dan 16 oed), yn gostwng o sylfaen is. Mae'r cyfraddau gwahanol ar y cychwyn a'r cyfraddau gwahanol o ostyngiad ar ôl chwe mis yn awgrymu bod rhai menywod a allai fod eisiau dechrau neu barhau i fwydo ar y fron yn rhoi'r gorau iddi.




## Bydwragedd dan hyfforddiant (dechrau'r cwrs)

(ffynhonnell: Cwestiynau'r Senedd)




## Bydwragedd graddedig

(ffynhonnell: Cwestiynau'r Senedd)







Mae'r cynnydd mewn lleoedd hyfforddi i fydwragedd, o ychydig o dan 100 ym mlwyddyn academaidd 2016/17 i bron i 200 yn 2021/22, yn dechrau dwyn ffrwyth, gyda'r nifer yn graddio wedi neidio o 79 yn 2017/18 i 121 yn 2021/22.

Mae'n cymryd amser i hyfforddi bydwraig, ond mae'r ffigyrau hyn yn dangos bod ymrwymiad i godi nifer yr hyfforddeion a'r buddsoddiad i wneud i hynny ddigwydd yn arwain at lawer mwy o fydwragedd newydd.




## Bydwragedd (cyfwerth â llawn amser): newid blynyddol

(ffynhonnell: StatsCymru)




## Bydwragedd (cyfwerth â llawn amser) yn ôl Bwrdd Iechyd Prifysgol


(ffynhonnell: StatsCymru)






## Proffil oedran bydwragedd

(ffynhonnell: Cwestiynau'r Senedd)




| Age | Tach-16 Nifer | Tach-16 Cyfran | Tach-22 Nifer | Tach-22 Cyfran | Newid Nifer | Newid Cyfran |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 21-25 | 117 | 7.0 | 149 | 8.9 | 32 | 1.9 |
| 26-30 | 176 | 10.5 | 221 | 13.2 | 45 | 2.7 |
| 31-35 | 185 | 11.1 | 260 | 15.5 | 75 | 4.5 |
| 36-40 | 190 | 11.4 | 212 | 12.6 | 22 | 1.3 |
| 41-45 | 199 | 11.9 | 192 | 11.5 | -7 | -0.4 |
| 46-50 | 261 | 15.6 | 158 | 9.4 | -103 | -6.2 |
| 51-55 | 315 | 18.8 | 214 | 12.8 | -101 | -6.1 |
| 56-60 | 163 | 9.7 | 179 | 10.7 | 16 | 0.9 |
| 61-65 | 58 | 3.5 | 81 | 4.8 | 23 | 1.4 |
| 65-70 | 8 | 0.5 | 7 | 0.4 | -1 | -0.1 |
| 71+ | 1 | 0.1 | 3 | 0.2 | 2 | 0.1 |

Mae nifer y bydwragedd yn y GIG yng Nghymru wedi bod yn sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf. Wedi'i fynegi fel ffigwr Cyfwerth â Llawn Amser (gan roi ystyriaeth nid yn unig i'r ffaith bod rhywun yn cael ei gyflogi fel bydwraig ond hefyd faint o oriau'r wythnos maen nhw'n gweithio), mae'r nifer yn mynd i fyny ac i lawr o fewn band cul, byth mor isel â 1,350, byth mor uchel â 1,400.

Rhwng mis Tachwedd 2016 a mis Tachwedd 2022, roedd nifer y bydwragedd GIG yng Nghymru, yn seiliedig ar gyfrif pennau, hefyd yn ddigyfnewid i bob pwrpas, gan godi o 1,673 i 1,676. Mae hyn yn adlewyrchu'r sefydlogrwydd rhyfeddol yn nifer y bydwragedd Cyfwerth â Llawn Amser yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae'r ffigyrau cyffredinol hyn yn colli rhywbeth pwysig. Hynny yw, y newidiadau sy'n digwydd o ran proffil oedran y proffesiwn. Mae hyn yn llai sefydlog.

Er enghraifft, rhwng 2016 a 2022 gwelwyd gostyngiad o 204 yn nifer y bydwragedd yn eu pedwardegau hwyr neu eu pumdegau cynnar. Ar yr un pryd, gwelwyd cynnydd o 167 yn nifer y bydwragedd hyd at 45 oed a chynnydd o 40 yn y nifer a oedd yn 56 oed neu'n hŷn. Mae'r ddau symudiad cadarnhaol hyn yn canslo'r cwymp yn nifer y bydwragedd canol oed.

Mae hyn yn bwysig oherwydd mae'n amlygu'r ffaith bod angen i ni barhau i hyfforddi'r nifer gynyddol o fydwragedd newydd a welsom yn ystod y blynyddoedd diwethaf fel eu bod yn cymryd lle'r rhai sy'n gadael. Byddai hefyd yn ymarfer defnyddiol i ddeall pam fod llai o fydwragedd yn y grwpiau oedran hynny. Mae'r ffaith ein bod yn gweld 200 yn llai o fydwragedd rhwng 46 a 55 oed heb gynnydd cyfatebol yn y categorïau oedran hŷn yn awgrymu nad yw hyn yn digwydd oherwydd bod y bydwragedd sydd gennym yn barod yn mynd yn hŷn, ond yn hytrach oherwydd bod bydwragedd yn gadael y gweithlu. Pam eu bod nhw'n gwneud hynny? Beth ellir ei wneud i'w hannog i aros yn gweithio fel bydwragedd gyda'r GIG yng Nghymru?





# Edrych Ymlaen

Mae newidiadau, megis demograffeg y menywod sydd angen gofal gan ein gwasanaethau mamolaeth ar hyn o bryd, yn cyflwyno heriau sylweddol y mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â hwy yng Nghymru. I wneud hyn, mae'r RCM o'r farn bod yn rhaid i ni gymryd y tri cham canlynol:

1. Cyhoeddi, ariannu a gweithredu'r Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol ar gyfer Cymru;
2. Canolbwyntio ar y gweithlu a staffio – gan sicrhau ein bod yn rhoi adnoddau digonol i mewn ac yn cael y cymysgedd sgiliau yn gywir;
3. Cefnogi a gofalu am staff, gan ganolbwyntio ar eu llesiant er mwyn helpu i ddal gafael ar fydwragedd profiadol.

Bydd cyhoeddi, ariannu a gweithredu'r Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol ar gyfer Cymru yn annog gwelliannau mewn ystod eang o feysydd, gan fynd i'r afael â llawer o'r materion a amlygwyd yn yr adroddiad hwn. Byddai'n darparu'r fframwaith angenrheidiol i sicrhau bod gofal yn cael ei gyflwyno'n well ac yn fwy diogel.

Mae dewis yn hanfodol hefyd. Er enghraifft, sut allwn lwyddo i wneud genedigaeth gartref yn opsiwn gwirioneddol i fwy o fenywod ledled Cymru, a hynny mewn ffordd ddiogel? Yn 2021, roedd bron un ym mhob 10 genedigaeth yn ardal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn y cartref, ond mewn ardaloedd eraill roedd yn nes at un ym mhob 30 neu hyd yn oed un ym mhob 50. Yn ogystal, mae angen i ni ystyried ehangu'r opsiwn o eni mewn uned dan arweiniad bydwragedd. Mae hyn yn rhywbeth y gellid ei gyflawni drwy'r fframwaith.

O fewn hynny, mae angen i ni roi ffocws o'r newydd ar staffio, er enghraifft llwybrau prentisiaethau newydd i fydwreigiaeth er mwyn rhoi hwb i lefelau staffio a sicrhau adnoddau priodol i rolau arbenigol er mwyn bodloni bob cymhlethdod cynyddol.

Yn olaf, mae angen i ni roi ffocws o'r newydd ar gadw'r bydwragedd sydd gennym eisoes. Ar hyn o bryd, er gwaethaf y cynnydd mewn niferoedd myfyrwyr, nid ydym yn gweld cynnydd sylweddol mewn lefelau staffio'n gyffredinol, oherwydd bod llawer o'r bydwragedd newydd ond yn cymryd lle'r rhai sy'n gadael.

Mae angen i ni ddal gafael ar fydwragedd presennol er mwyn i ni ehangu'r gweithlu. Mae modd i ni wneud hynny drwy sicrhau ein bod yn gofalu am ein staff a bod eu llesiant yn cael ei gefnogi. Os wnawn ni hynny yna byddwn yn aros gyda ni – sy'n golygu mwy o staff medrus, profiadol yn darparu gofal rheng flaen i fenywod a'u teuluoedd.

Fel bob amser, mae gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru yn wynebu rhai heriau go iawn, ond cawsom hyd i bethau cadarnhaol hefyd wrth lunio'r adroddiad hwn. Edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru, ar draws y sbectrwm gwleidyddol yn y Senedd, a chyda llawer o randdeiliaid eraill ledled Cymru wrth i bawb ohonom geisio gwella gwasanaethau mamolaeth. Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn o gymorth i lywio'r gwaith hwnnw fel y gallwn, gyda'n gilydd, wella gwasanaethau i fenywod a theuluoedd Cymru.

Coleg Brenhinol y Bydwragedd

Cymru

Argraffwyd ym mis
Mehefin 2023

@MidwivesRCM
www.facebook.com/MidwivesRCM
@midwives_rcm

RCM Cymru
Uned 13b Rhodfa Drake
Brigantine Place
Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd CF10 4AN

0300 303 0444
info@rcm.org.uk
www.rcm.org.uk